**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Prif Weithredwyr
Byrddau Iechyd y GIG

17 Gorffennaf 2024

**Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon**

Annwyl cydweithwyr,

Fel y gwyddoch efallai, ar hyn o bryd rydym yn casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad 'plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon'. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

Daeth y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben ar 23 Ionawr 2024. Rydym bellach wrthi'n casglu tystiolaeth anffurfiol gan randdeiliaid drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ein blaenraglen waith, rydym wedi penderfynu ceisio tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu gan randdeiliaid allweddol yn hytrach na chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol. Yna byddwn yn cynnal sesiwn graffu ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Medi 2024.

Rydym felly yn ceisio eich barn ar unrhyw agwedd ar yr ymchwiliad i gryfhau ein tystiolaeth ysgrifenedig. Yn ogystal ag unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr ymchwiliad, byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y pwyntiau penodol a ganlyn:


- Maint a natur yr achosion o blant a phobl ifanc sy'n dod i adrannau damweiniau ac achosion brys gydag anafiadau sy'n awgrymu eu bod o bosibl yn dioddef o gamfanteisio'n droseddol ar blant, a manylion unrhyw strategaethau a/neu brosiectau penodol y mae byrddau iechyd yn ymwneud â nhw yn hyn o beth.

- Ymgyflwyniadau mewn clinigau iechyd rhywiol sy'n dangos arwydd o risgiau o ymwneud â gweithgareddau troseddol plant. Manylion unrhyw strategaethau a/neu brosiectau penodol y mae byrddau iechyd yn ymwneud â nhw yn hyn o beth.

- Ymgyflwyniadau i unrhyw fath arall o ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol yn ymwneud â chamfanteisio'n droseddol ar blant a phlant coll, ochr yn ochr ag unrhyw argymhellion yr hoffech i'r Pwyllgor eu gwneud yn hyn o beth.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 23 Awst 2024 fan bellaf fel y gallwn ystyried eich barn cyn ein sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.